Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheolau am raddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Dogfen Ymgynghori - Rheoliadau graddau arolygu ar gyfer gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref.'.

Gorffennaf 2024

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 35**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**E-bost:** CareHomeTeam@gov.wales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am yr ymgynghoriad yma....................................................4**

**Cefndir..........................................................................7**

**Graddau arolygu – ein syniadau ar gyfer y rheolau............... 10**

Dangos graddau arolygu ar-lein.........................................11

Dangos graddau arolygu mewn adeiladau lle mae gwasanaethau yn cael eu darparu .......................................13

Rhoi graddau arolygu i bobl pan fyddan nhw yn gofyn amdanyn nhw ...........................................................21

Apelio yn erbyn graddau arolygu ........................................22

Troseddau ......................................................................25

**Yr iaith Gymraeg ....................................................... 28**

**Sylwadau eraill .......................................................... 29**

**Amdanoch chi ............................................................ 30**

**Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth.......................... 32**

**Geiriau anodd ........................................................... 35**

# Am yr ymgynghoriad yma




Rydyn ni yn creu rheolau newydd. Mae’r rheolau am y gwasanaethau sy’n cyhoeddi **graddau arolygu**.



Mae cyhoeddi yn meddwl rhannu gyda’r cyhoedd, fel bod pawb yn gallu gweld.



Mae graddau arolygu yn dweud pa mor dda ydy gwasanaeth.

Mae’r rheolau ar gyfer gwasanaethau sy’n darparu:



- cartrefi gofal oedolion,



- cartrefi gofal plant,



- a **gwasanaethau cymorth cartref** – gwasanaethau gofal sy’n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.



Pan mae’r ddogfen yma yn dweud gwasanaethau, mae hyn yn meddwl cartrefi gofal oedolion a phlant, a **gwasanaethau cymorth cartref**.



**Rydyn ni eisiau gwybod eich bod chi’n meddwl am y rheolau.**




Darllenwch y ddogfen yma ac atebwch y cwestiynau. Mae 10 cwestiwn yma.Anfonwch eich atebion yn ôl i ni erbyn **14 Hydref 2024.**



Rydych chi'n gallu anfon eich atebion drwy e-bost at: CareHomeTeam@gov.wales



Neu rydych chi'n gallu eu printio nhw a'u postio i:
Tîm Cartref Gofal

Is-adran Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

# Cefndir





Yn 2016 fe wnaeth deddf newydd gael ei dechrau. Mae'n dweud sut y dylai gwasanaethau cartrefi gofal, a **gwasanaethau cymorth cartref** fod yn cael eu:

- rhedeg
- a'u gwirio.




Enw'r gyfraith ydy **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**.



Nod y ddeddf yma ydy gwella ansawdd y gwasanaethau yma.



Mae'r ddeddf yn dweud y dylid rhoi graddau arolygu i'r gwasanaethau yma. Felly, mae pawb yn gallu deall pa mor dda ydy'r gwasanaeth.

Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** wedi bod wrthi yn gwneud profion gan ddefnyddio graddau arolygu. I baratoi ar gyfer pan fyddan nhw yn dechrau eu defnyddio ym mis Ebrill 2025.

Y graddau arolygu ydy:




- Ragorol



- Da



- Angen Gwella



- Gwael



Mae gradd yn cael ei rhoi i 4 maes ym mhob gwasanaeth:

- Llesiant



- Gofal a chymorth



- Arweinyddiaeth a rheolaeth



- Amgylchedd




Nod y rheolau newydd ydy dweud bod **rhaid** i wasanaethau  ddangos eu graddau arolygu. A sut a lle y dylid eu dangos i bawb eu gweld.



Fe fydd graddau arolygu yn dangos yn glir pa mor dda ydy gwasanaeth penodol. Beth sydd angen ei wneud i wella pethau.

# Graddau arolygu – ein syniadau ar gyfer y rheolau

Mae'r rheolau am 3 pheth:




- Sut y dylid dangos graddau arolygu.




- Sut mae gwasanaethau yn gallu **apelio** yn erbyn graddau arolygu. Mae hyn yn meddwl anghytuno â gradd a gofyn iddo gael ei wirio.




- **Troseddau** - beth sy'n digwydd pan fydd gwasanaethau'n torri'r rheolau yma.

# Dangos graddau arolygu ar-lein




Rhaid i wasanaethau gyhoeddi eu graddau arolygu diweddaraf ar bob gwefan y maen nhw yn ei rhedeg. Gan gynnwys gwefannau sy'n cael eu rhedeg ar eu cyfer gan gwmni arall.



Os ydy darparwr gwasanaeth yn rhedeg mwy nag un gwasanaeth, rhaid iddo ddweud yn glir pa wasanaeth mae'r graddau arolygu ar ei gyfer.

**Rhaid i raddau arolygu:**




- Cael eu dangos heb oedi
- Cael eu dangos yn y fformat sydd wedi cael ei roi i'r gwasanaeth gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**
- Hawdd ei Ddeall
- Cynnwys y dyddiad mae'r graddau wedi cael eu rhoi
- Cael eu dangos yn glir lle mae pobl yn gallu eu gweld yn hawdd.




## Cwestiwn 1

**Ydych chi yn cytuno bod rhaid i wasanaethau ddangos graddau arolygu ar eu gwefan?**



Cytuno'n gryf ☐



Cytuno ☐



Dydw i ddim yn cytuno nac yn anghytunos ☐



Anghytuno ☐



Anghytuno'n gryf ☐

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod chi yn cytuno neu'n anghytuno.**

# Dangos graddau arolygu mewn adeiladau lle mae gwasanaethau yn cael eu darparu

## Cartrefi gofal oedolion




Rhaid bod o leiaf 1 arwydd yn dangos eu graddau arolygu. Fe ddylai fod 1 arwydd ym mhob adeilad lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.



**Rhaid i raddau arolygu:**

- Cael eu dangos heb oedi
- Cael eu harddangos yn y fformat sydd wedi cael eu rhoi i'r gwasanaeth gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**
- Hawdd ei Ddeal
- Cynnwys y dyddiad mae'r graddau wedi cael eu rhoi
- Cael eu dangos yn glir lle mae pobl yn gallu eu gweld yn hawdd.

## Cartrefi gofal oedolion bach



Does dim angen i gartrefi gofal bach gyda 4 neu lai o bobl yn byw yno ddangos eu graddau arolygu yn yr adeilad.



Mae hyn oherwydd bod y cartrefi gofal yma fel cartrefi teuluol. Mae dangos arwydd graddau arolygu yn gallu difetha'r teimlad o fod gartref.




## Cwestiwn 2

**Ydych chi yn cytuno na ddylai cartrefi gofal i oedolion gyda 4 neu lai o bobl yn byw yno orfod dangos graddau arolygu?**



Cytuno'n gryf ☐



Cytuno ☐



Dydw i ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐



Anghytuno ☐



Anghytuno'n gryf ☐

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno.**

## Cartrefi gofal plant



Does dim rhaid i gartrefi gofal plant ddangos arwydd graddau arolygu yn yr adeilad.



Mae hyn wedi ei seilio ar beth mae blant sydd wedi byw mewn cartrefi gofal plant wedi ei ddweud.



Roedden nhw yn dweud y dylai cartrefi gofal plant edrych fel cartref teuluol unrhyw blentyn arall. Roedden nhw eisiau cartrefi oedd ddim yn edrych fel gwasanaethau.




## Cwestiwn 3

**Ydych chi yn cytuno na ddylai cartrefi gofal plant orfod dangos graddau arolygu?**



Cytuno’n gryf ☐



Cytuno ☐



Dydw i ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐



Anghytuno ☐



Anghytuno’n gryf ☐

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu’n anghytuno:**

## Gwasanaethau cymorth cartref



Mae’r rhain yn wasanaethau sy’n darparu gofal i bobl yn eu cartrefi eu hunain.




Rhaid i’r gwasanaethau yma ddangos o leiaf 1 arwydd graddau arolygu ym mhob swyddfa y maen nhw yn gweithio ohoni. Oni bai nad ydy’r swyddfa ar agor i’r cyhoedd.



Rydyn ni yn deall weithiau nad oes gan y gwasanaethau hyn swyddfa. Os felly, dydy’r rheol yma ddim yn berthnasol.




Pan fydd gan **wasanaeth cymorth cartref** swyddfa sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid i raddau arolygu:




- Cael eu dangos heb oedi
- Cael ei dangos yn y fformat sydd wedi cael ei roi i'r gwasanaeth gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**
- Hawdd ei Ddeall
- Cynnwys y dyddiad mae'r graddau wedi cael eu rhoi
- Cael eu harddangos yn glir lle mae pobl yn gallu eu gweld yn hawdd.



Does dim  angen dangos graddau arolygu yng nghartrefi pobl sy'n cael y gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys byw â chymorth.




## Cwestiwn 4

**Ydych chi yn cytuno bod rhaid i wasanaethau cymorth cartref ddangos eu graddau arolygu yn eu swyddfeydd? Oni bai nad ydy ar agor i'r cyhoedd?**



Cytuno'n gryf ☐



Cytuno ☐



Dydw i ddim
yn cytuno nac yn anghytuno ☐



Anghytuno ☐



Anghytuno'n gryf ☐

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno:**

# Rhoi graddau arolygu i bobl pan fyddan nhw yn gofyn amdanyn nhw



Rhaid i'r holl wasanaethau ddarparu eu graddau arolygu i unrhyw un sy'n gofyn amdanyn nhw.




Fe ddylid rhoi'r graddau arolygu mewn ffordd sy'n gweddu i anghenion yr unigolyn.

# Apelio yn erbyn graddau arolygu




Mae'r ddeddf yn dweud bod  rhaid i wasanaethau allu **apelio** yn erbyn eu graddau arolygu.



Mae gwasanaethau yn gallu **apelio** os ydyn nhw yn credu bod eu graddau arolygu:

- wedi eu seilio ar **ffeithiau anghywir** – gwybodaeth sydd ddim yn wir neu'n anghywir

- wedi eu seilio ar **dystiolaeth anghyflawn** - dim wedi eu seilio ar yr holl wybodaeth na'r dystiolaeth sydd ar gael.



Er mwyn **apelio**, rhaid i wasanaethau ysgrifennu at Arolygiaeth Gofal Cymru. Rhaid gwneud hyn o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn eu hadroddiad arolygu.



Fe fydd **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn adolygu'r adroddiad arolygu. Ac anfon canlyniad hynny at y gwasanaeth.




Os ydy'r gwasanaeth yn dal yn anhapus, rhaid iddyn nhw ysgrifennu at **Arolygiaeth Gofal Cymru** o fewn 5 diwrnod i gael canlyniadau'r adolygiad.



Yna, fe fydd person ar wahân i dîm yr arolygydd yn edrych ar hyn.



Fe fydd **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn gwneud penderfyniad terfynol am raddau yr arolwg. A rhannu eu hadroddiad arolygu terfynol ar eu gwefan.




## Cwestiwn 5

**Ydych chi'n cytuno â'r ffordd mae gwasanaethau yn gallu apelio yn erbyn eu graddau arolygu?**


Cytuno'n gryf ☐


Cytuno ☐


Dydw i ddim yn cytuno nac yn anghytuno ☐


Anghytuno ☐


Anghytuno'n gryf ☐

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno.**

# Troseddau





**Trosedd** ydy pan fyddwch chi yn torri'r gyfraith neu'r rheolaus.



Os na fydd gwasanaeth yn dilyn y rheolau yma, efallai y bydd angen iddyn nhw dalu dirwy.




Fe fydd y ddirwy yn £2,500.




Mae hyn yr un fath os nad ydy gwasanaeth yn dilyn rheolau eraill. Am bethau fel cael yr holl bolisïau cywir ar waith.



## Cwestiwn 6

**Ydych chi yn cytuno y dylai fod yn drosedd i wasanaethau beidio â dangos eu graddau arolygu fel mae'n dweud yn y rheolau?**



Cytuno'n gryf



Cytuno



Dydw i ddim
yn cytuno nac yn anghytuno



Anghytuno



Anghytuno'n gryf

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno.**




## Cwestiwn 7

**Ydych chi yn cytuno y dylai'r gosb am dorri'r rheolau fod yn £2,500?**



Cytuno'n gryf ☐



Cytuno ☐



Dydw i ddim
yn cytuno nac yn anghytuno ☐



Anghytuno ☐



Anghytuno'n gryf ☐

**Dywedwch wrthyn ni pam eich bod yn cytuno neu'n anghytuno.**

# Yr iaith Gymraeg




## Cwestiwn 8

**Sut ydych chi'n meddwl mae'r rheolau yn gallu effeithio ar y Gymraeg**

Er enghraifft, a fydd yn helpu pobl i ddefnyddio mwy neu lai ar y Gymraeg?




## Cwestiwn 9

**Ydych chi yn credu ein bod ni yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r rheolau fyddai'n helpu:**

- pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg
- cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg i fod yn gyfartal
- lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.

# Sylwadau eraill



## Cwestiwn 10

**Oes yna unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y rheolau ar gyfer dangos graddau arolygu?**

**Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:**

# Amdanoch chi




**Eich enw:**



**Sefydliad (os yw'n berthnasol):**



**Rhif ffôn / e-bost:**



**Eich cyfeiriad:**




**Ydych chi'n byw yng Nghymru?**

Ydw ☐

Nac Ydw ☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐




**Ydych chi neu'ch teulu yn berchen ar wasanaeth yng Nghymru?**

Ydw ☐

Nac Ydw ☐

Mae'n well gen i beidio â dweud ☐




**Ysgrifennwch ran gyntaf eich cod post cartref. Er enghraifft: CF10**




Mae'n debygol y byddwn ni yn cyhoeddi atebion pobl i'r ymgynghoriad yma. Ar-lein neu mewn adroddiad. Os nad ydych chi eisiau i bobl wybod eich atebion, ticiwch y blwch yma. ☐

# Sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni yn defnyddio'ch gwybodaeth drwy ddilyn cyfraith o'r enw **Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data DU (GDPR y DU)**.



Fe fydd ein staff yn gallu gweld eich atebion.



Weithiau fe fyddwn ni yn gofyn i sefydliadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Efallai y byddan nhw'n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Rydyn ni fel arfer yn cyhoeddi adroddiad sy'n dangos y mathau o bethau mae pobl wedi ei ddweud.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad, mae'r wybodaeth yn gallu bod ar gael am amser hir.




Ond dim ond am 3 blynedd mae gwybodaeth sydd ddim yn cael ei chyhoeddi yn cael ei chadw.




Mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i chi:

- Gwybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut rydych chi'n gallu ei gweld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn y wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni ddileu'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud y wybodaeth amdanoch chi i rhywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio, cysylltwch â ni yn:



**Swyddog Diogelu Data**

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ



**E-bost:** Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Rydych chi hefyd yn gallu cysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

**Ffôn:** 01625 545745 neu 0303 123 1113

**Gwefan:** https://ico.org.uk

# Geiriau anodd

### Apêl

Mae hyn yn meddwl anghytuno â gradd a gofyn iddo gael ei wirio.

### Gwasanaethau cymorth cartref

Gwasanaethau gofal sy’n cefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.

### Troseddau

Torri’r rheolau. A beth sy’n digwydd pan fydd gwasanaethau’n torri’r rheolau.